**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Lun Medi 16eg 2019 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cyng Rob Parkes (Cadeirydd), Alyn Ashworth (Is-gadeirydd), Gaynor Morgan-Rees, Philip Stevens, Dyfrig Berry & Irene Williams; & Jenny Barlow (Clerc Y Dref)

**Ymddiheuriadau: Dim.**

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod mis Medi.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Lun 15fed o Orffennaf 2019.**

3. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y cais isod

   (1) (1) 01/2019/0682
   Bwthyn Gefail, 9 Brwcws, Dinbych.
   Lleoli ystafell ardd i'w ddefnyddio fel salon trin gwallt symudol.

   Hoffai'r cynghorwyr tref wybod beth yw'r ddarpariaeth dŵr gwastraff ar gyfer y salon, heb ei ddangos ar y cais. Anfonwyd yr ymholiad hwn i'r adran Gynllunio.

   2) BT/2019/0708
   Ymgynghoriad ciosg BT.
   Blychau Ffon ar safleoedd amrywiol o amgylch Sir Ddinbych.

   Nid oedd ciosgau yn Ninbych ar y rhestr a ddarparwyd.

   3) 01/2019/0579
   Maes Awyr, Parc Lleweni, Dinbych.
   Newid defnydd tir ar gyfer lleoli uned lletygarwch/swyddfa, adeiladu man parcio cysylltiedig â defnydd deuol o'r traciau presennol fel maes awyr ac ar gyfer ysgol gyrru; defnyddio trac presennol ar gyfer deunydd hyfforddiant 4 x 4 a lleoli caban ar gyfer sefydlu/hyfforddi ac arwyneb caled cysylltiedig ar gyfer tiwtora ceir sgid.

   4) 01/2019/0716
   Bara Henllan, Uned 6 Llwyn Goch, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
   Newidiadau i ymddangosiad a deunyddiau allanol adeilad presennol a gwaith cysylltiedig.

   5) 01/2019/0655
   Dolseren, Stryd y Parc, Dinbych
   Codi estyniad ac addasiadau i'r annedd, addasu garej i ffurfio llety byw ategol a gwaith cysylltiedig.

   6) 01/2019/0696
   Tir Tŷ Gŵyl Dewi, Lon Gŵyl Dewi, Dinbych

Amrywio amod rhif 1 o god caniatâd cynllunio 01/2015/0858 i ganiatáu math o dy wedi'i  ddiwygio a garej ychwanegol (safle 4).

7) 01/2019/0744
Tir Fferm Y Llety cyffiniol a Tan Y Sgubor, Dinbych.
Codi 22 anheddau fforddiadwy, adeiladu mynedfa gerbydau newydd a gwaith cysylltiedig.

Hoffai'r cynghorwyr tref wybod a oedd y mater a godwyd ynghylch y pwll wedi'i unioni. Clerc y dref i gysylltu â'r adran gynllunio.

8) Cais cyn Cynllunio - Tir rhwng Hen a Ffordd Newydd Rhuthun, Dinbych.
Edrychwyd ar ddogfennau: planning.macbryde-homes.co.uk

Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cais cyn cynllunio, ond hoffai'r cyngor tref iddo nodi mai dim ond 6 o'r 60 annedd sy'n dai fforddiadwy o'r 60 annedd. Mae hyn yn cyfateb i 10%. Yng nghanllawiau cynllunio drafft 2018/19 ar gyfer Cymru mae'n nodi y dylid adeiladu hyd at 47% o dai fforddiadwy. Hoffai'r cyngor tref i'r cwmni ystyried ehangu ar y 6 neu 10% gan fod gwir angen am fwy o dai fforddiadwy yn Ninbych.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.52yh.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………